

# Stori fawr Duw

*“Y mae’r dirgelwch hwn yn fawr. Cyfeirio yr wyf at Grist ac at yr eglwys.”  
(adn. 32)*

## Beth am ddarlflen Effesiaid 5: 22–33 ac yna myfyrio

Daliwn i fyfyrio ar y ffaith bod yr epig gyffredinol mae Duw wrthi’n ei sgwennu yn un ramantus. Rydym i gyd yn gyfarwydd â’r stori dylwyth teg sy’n sôn am dywysoges yn cusanu broga a hwnnw wedyn yn troi’n dywysog golygus. Mae stori fawr Duw ynglŷn â phriodfab yn cyffwrdd pechaduriaid brwnt fel ti a fi, a thrwy ei ras yn ein troi ni’n bobl sydd yn gymwys i gael ein huno ag ef mewn priodas ac i fod yn gymdeithion tragwyddol iddo.

Pan fo’r apostol Paul yn sôn am ŵr a gwraig yn dod yn un cnawd mae’n gwneud y sylw: “Mae’r dirgelwch hwn yn fawr (ond) cyfeirio yr wyf at Grist ac at yr eglwys.” Beth yw’r “dirgelwch” sy’n mynd â’i fryd yn y fan yma? Y “dirgelwch” y bydd yr eglwys, yn union fel mae pâr priod yn dod yn un cnawd, hefyd yn un gydag ef yn nhragwyddoldeb.

Fedr haneswyr nad ydyn nhw’n Gristnogion ddim amgyffred bod yna stori garu wrth wraidd y bydysawd. Cefais fy hun unwaith yn eistedd wrth ymyl hanesydd ar awyren. Yn ystod y sgwrsio fe ofynnais i’r dyn pa wersi oedd o’n gallu eu codi o’i astudiaeth o hanes. Oedodd am ennyd cyn dweud: “Mae’n ymddangos nad oes dim ystyr mewn hanes.” Wrth i mi geisio esbonio bod, er gwaetha’r anhrefn ymddangosiadol, gynllun dwyfol yn cael ei weithredu – un rhamantus – edrychodd arnaf i mewn syndod. Gan droi’n ôl at ei bapurau, fe ddywedodd, er y byddai’n hoffi trafod y mater ymhellach, bod ganddo lawer o waith i’w wneud eto. Wrth iddo ddweud wrthyf ar ddiwedd y daith ei fod yn dal awyren arall ac yn mynd yn ei flaen i rywle arall, allwn i ddim peidio â meddwl: ysgwn i i ble?

## Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Hosea 2:16–20;

1 Pedr 2:9

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa effeithiau pellgyrhaeddol a ddaw yn sgil priodas yr Oen?
2. Beth mae pobl Dduw yn cael eu galw i’w wneud?

## Gweddi

O Dad, y fath ragolygon – y fath stori! Ein bod ni, a oeddem wedi ein staenio’n ddwfn gan bechod ac yn awr yn lân trwy waed dy Fab, i gael ein huno â thi am byth. Fedra i ddim dod dros y peth. Bendigedig fyddo dy enw di byth mwy. Amen.